CANFOD! gyrfaoedd creadigol CYMRU

DISCOVER! creative careers CYMRU

# Pecyn Cymorth i'r Diwydiant

(FERSIWN GYMRAEG)

**2025–26**



Delwedd © Get Into Theatre, ffotograffydd Alex Brenner

Funded by UK Government
Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU



# Cyflwyniad

*"Rydyn ni wrth ein bodd bod y modelau rôl yma sy'n llawn ysbrydoliaeth yn ymuno â ni heddiw i ysgogi ein disgyblion ymhellach a'u hysbrydoli i lwyddo."*
Kelly Bubbins, Dirprwy Bennaeth

Diolch am eich diddordeb yn Canfod! Gyrfaoedd Creadigol Cymru 2025–26, rhan o raglen sy'n cael ei chefnogi gan y llywodraeth a'i harwain gan y diwydiant, sy'n hysbysu ac yn ysbrydoli pobl ifanc 11–18 oed am yrfaoedd yn y diwydiannau creadigol.

Canfod! Gyrfaoedd Creadigol yw cyfle'r diwydiant i ysbrydoli gweithlu'r dyfodol trwy arddangos eu cwmni, eu tîm, y rolau a'r llwybrau sydd yn y sector.

Eleni, rydym wrth ein bodd yn ehangu Canfod! Gyrfaoedd Creadigol i Gymru gan gynnig rhaglen o weithgareddau drwy gydol y flwyddyn ynghyd ag wythnos benodol o ddigwyddiadau rhwng 17 a 21 Tachwedd.

Yng Nghymru, rydym am weld cymaint â phosibl o gyflogwyr yn y diwydiant creadigol yn cynnig profiadau personol amhrisiadwy, naill ai yn y gweithle neu yn yr ysgol. Os nad yw hynny'n bosibl mae yna sawl ffordd arall o gymryd rhan, a byddwn yn sôn am y rhain yn y pecyn hwn.

*"Mae pobl ifanc yn meddwl mai dim ond ar y set y byddan nhw'n gweithio. Ond rydw i eisiau cyfleu y gallen nhw weithio mewn swyddfa gynhyrchu, mewn gweithdy, neu ar leoliad. Gwnaeth Into Film gymryd y syniad yma a'i roi mewn adnodd rwy'n ei ddefnyddio nawr."*
Addysgwr

Er mwyn eich helpu i gysylltu ag ysgolion/colegau a grwpiau, rydyn ni wedi lansio Chwilotydd Canfod Cyfle ar-lein a fydd yn helpu'r diwydiant i dynnu sylw at eu digwyddiadau a'u gweithgareddau a chaniatáu i ysgolion/colegau chwilio am gyfleoedd perthnasol i'w myfyrwyr. Cyflwynwch eich cyfle fan yma.

Dylai'r Pecyn Cymorth i'r Diwydiant roi popeth sydd ei angen arnoch i'ch helpu i gynllunio a chyflwyno eich gweithgareddau Canfod! Gyrfaoedd Creadigol Cymru 2025, ond mae croeso i chi gysylltu â ni i ofyn unrhyw gwestiynau: discovercymru@intofilm.org. Gallwch hefyd archebu lle ar un o'n sesiynau gwybodaeth a holi ac ateb sydd ar ddod.

P'un a ydych chi'n agor eich drysau er mwyn cynnig ymweliad â'ch gweithle, yn cyflwyno sgwrs neu weithdy gyrfaoedd mewn ysgol/coleg lleol, yn cynnal digwyddiad ar-lein neu'n arddangos eich cyfleoedd presennol fel rhan o'r ymgyrch, rydych chi'n rhan o fudiad sy'n newid wyneb ein gweithlu i'r dyfodol – diolch.

**Tîm Canfod! Gyrfaoedd Creadigol Cymru**

## Cynnwys y pecyn cymorth


| | Tudalen |
|---|---|
| Pam cymryd rhan? | 3 |
| Cychwyn arni | 4–7 |
| Syniadau am weithgareddau | 8–10 |
| Creu digwyddiad diogel | 11–13 |
| Rhestr wirio | 14 |
| Cwestiynau cyffredin | 15 |
| Pecyn ymgyrch | 16 |


Delwedd © RIBA, Festival of the Future 2025, ffotograffydd Luke O'Donovan

# Pam cymryd rhan?

Canfod! Gyrfaoedd Creadigol yw eich cyfle i ysbrydoli darpar weithlu'r diwydiannau creadigol drwy arddangos eich cwmni, eich tîm, a'r rolau a'r llwybrau sydd yn eich sector. Yn ogystal â'r effaith ar ein darpar weithlu ledled y diwydiant, mae sawl mantais arall i gwmnïau sy'n cymryd rhan:

**Twf y Diwydiant:** Gyda llai o bynciau creadigol mewn ysgolion, mae mentrau fel hyn yn cynnig cyfle hanfodol i roi sylw i'r diwydiant, gan sicrhau llif o dalent fedrus i'r sector.

**Gweithlu Cynhwysol:** Drwy estyn allan at ysgolion mewn ardaloedd nad ydyn nhw'n cael sylw digonol, gallwch helpu i roi chwarae teg i bawb ac annog ystod ehangach o fyfyrwyr i ddilyn gyrfaoedd yn y diwydiannau creadigol.

**Dylanwadu ar y Cwricwlwm:** Gyrfaoedd a Phrofiadau Cysylltiedig â Gwaith i bobl ifanc fel sy'n cael ei amlinellu yn y Cwricwlwm i Gymru a fframweithiau Addysg a Phrofiadau Byd Gwaith a Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith.

**Datblygu Partneriaethau Lleol:** Y nod yw i'r diwydiant sefydlu cysylltiadau parhaol ag ysgolion, colegau a gwasanaethau gyrfaoedd i sicrhau bod allgymorth, ymgysylltiad a datblygu talent yn digwydd mewn ffordd gynaliadwy.

**Codi Ymwybyddiaeth a Chysylltiadau Cyhoeddus:** Byddwch yn rhan o ymgyrch genedlaethol #CanfodGyrfaoeddCreadigolCymru a gallai eich cyfranogiad ddenu cyhoeddusrwydd i'ch cwmni.

# Ffyrdd o gymryd rhan

Mae yna lawer o ffyrdd i unigolion a chwmnïau gymryd rhan a chefnogi Canfod! Gyrfaoedd Creadigol Cymru 2025, o rannu adnoddau i gynnal teithiau o amgylch y gweithle a chyflwyno gweithdai.

**Dyma rai pethau allech chi eu gwneud:**

- Dychwelyd i'ch ysgol eich hun neu gysylltu â'ch coleg lleol a rhoi sgwrs yn y gwasanaeth
- Agor eich gweithle a chynnig teithiau tywys i ysgolion a cholegau lleol
- Cynnal gweithdy neu weithgaredd sy'n dangos y sgiliau sydd eu hangen ar gyfer rôl yn eich sector
- Adolygu portffolios a CVs myfyrwyr, gan roi cipolwg ar ddisgwyliadau cyflogwyr
- Ymuno â fforymau cyflogwyr i lunio'r cwricwlwm a sicrhau bod ysgolion/colegau yn addysgu'r sgiliau cywir
- Cymryd rhan yn ymgyrch #CanfodGyrfaoeddCreadigolCymru ac arddangos eich adnoddau presennol ym maes gyrfaoedd
- Cysylltu â chwmnïau lleol yn y diwydiant creadigol i gyflwyno ffair yrfaoedd ryngweithiol gyda sgyrsiau ac arddangosiadau yn ymwneud â'r diwydiant neu siarad gyda ni fel y gallwn eich gwahodd i ddigwyddiadau presennol

**Chwilio am syniadau? Cymerwch olwg ar ein hastudiaethau achos sy'n cynnwys digwyddiadau o Wythnos Canfod! 2023 a 2024.**



# Cychwyn arni

## Camau cyntaf – Penderfynu ar y cynnig

- Penderfynwch beth hoffech chi ei gynnig, ble bydd hyn yn digwydd, a'r hyn fyddai orau gennych chi o ran grŵp oedran neu gam addysg y myfyrwyr.
- Penderfynwch pryd y bydd hyn yn digwydd. Gallwch naill ai bennu dyddiadau ac amseroedd ar gyfer y cynnig, neu wahodd ysgolion/colegau i gysylltu â chi a chytuno ar ddyddiad ac amser gyda'ch gilydd. Efallai yr hoffech chi hefyd benderfynu ar grŵp oedran i'w dargedu (rhwng 11–18 oed).
- Byddwn yn cynnal sesiynau gwybodaeth galw heibio rheolaidd i rannu syniadau am sut i chwarae eich rhan a sut i gysylltu ag ysgolion a cholegau lleol. Ewch i'r wefan i weld y dyddiadau, neu gysylltwch â ni fel tîm.
- Gallwn ni hefyd eich helpu a'ch tywys drwy'r broses hon, gan drafod eich syniadau a'ch rhoi mewn cyswllt ag ysgolion lle bo angen.

## Camau nesaf – Llwythwch eich digwyddiad i'r Chwilotydd Canfod Cyfle

- Defnyddiwch y Chwilotydd Canfod Cyfle i lwytho manylion eich digwyddiad a'ch gweithgareddau. Unwaith y bydd y rhain wedi eu cymeradwyo a'u postio, gall ysgolion/colegau chwilio am ddigwyddiadau perthnasol yn eu hardal a chysylltu drwy ffurflen ymholiadau.
- Peidiwch â phoeni os nad ydych chi wedi penderfynu ar yr holl fanylion, cyn belled â bod gennych chi ddyddiad / ystod o ddyddiadau a syniad o'r hyn yr hoffech chi ei gynnig, fe allwch chi lwytho eich digwyddiad a dechrau cysylltu ag ysgolion/colegau.
- Gallwch lwytho gwybodaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg neu'r ddwy iaith. Os yw'r cyflwyniad yn Gymraeg er enghraifft, fe allwch lwytho'r wybodaeth yn y ddwy iaith ond gwnewch yn siŵr eich bod yn nodi iaith y digwyddiad yn glir yn y disgrifiad yn y ffurflen Gymraeg a Saesneg fel bod yr ysgolion yn gwybod ym mha iaith fydd y digwyddiad wrth archebu. Efallai y byddwch yn dewis llwytho'r wybodaeth yn iaith y cyflwyniad yn unig. Cysylltwch â ni os hoffech chi gael cyngor neu arweiniad.
- Llwythwch eich digwyddiad i'r Chwilotydd Canfod Cyfle heddiw

## Dod o hyd i ysgol

- Gallwch hefyd gysylltu'n uniongyrchol ag ysgolion yn eich ardal drwy gysylltu ag Arweinwyr Gyrfaoedd lleol sy'n seiliedig mewn ysgolion. Gallwch ddefnyddio gwefan gov.uk i chwilio am ysgolion/colegau lleol.
- Gallwch hefyd gysylltu â thîm Canfod! Gyrfaoedd Creadigol Cymru a gallwn ni eich rhoi mewn cyswllt â chysylltiadau yn yr Awdurdod Lleol ac arweinwyr Gyrfa Cymru yn eich rhanbarth chi.

# Cychwyn arni

## Awgrymiadau a chyngor defnyddiol wrth weithio gyda phobl ifanc

- I lawer o'r myfyrwyr sy'n cymryd rhan, dyma fydd y tro cyntaf iddyn nhw ymwneud â'ch sector chi ac o bosibl unrhyw sector neu weithle. Osgowch ddefnyddio jargon wrth siarad am eich rolau a'ch cwmni. Os nad oes modd osgoi hynny, yna fe allech chi gynnal gweithgaredd chwalu jargon ar ddechrau'r diwrnod i gyflwyno'r termau newydd i'r myfyrwyr.
- Yn hytrach na rhoi llawer o wybodaeth, ceisiwch gael mewnbwn y bobl ifanc yn gyntaf fel eu bod nhw'n fwy parod i dalu sylw. Defnyddiwch gwestiynau agored sy'n ysgogi atebion. Fe allech chi ddechrau trwy ofyn beth maen nhw eisoes yn ei wybod am y diwydiant.
- Mae angen i bobl ifanc weld pwy allan nhw fod! Lle bo modd, ceisiwch gynnwys ystod amrywiol o siaradwyr i helpu i gyflwyno'r gweithgaredd. E.e. rhywun agos at eu hoedran sydd ar ddechrau eu gyrfa, rhywun o'u hardal leol neu o gefndir tebyg.
- Defnyddiwch ambell enghraifft go iawn, pendant o waith gorffenedig fel y gall y bobl ifanc gysylltu eich cwmni / sector yn hawdd â chynhyrchion neu brofiadau y byddan nhw'n eu hadnabod. Gallech ddechrau gyda darn terfynol o waith a gweithio'n ôl, gan edrych ar yr holl bobl a fu'n rhan o'i greu.
- Paratowch nhw'n dda ar gyfer y gweithgaredd - esboniwch pam maen nhw'n gwneud tasg benodol a beth allai'r canlyniad fod. Fe fyddan nhw'n gweld tasgau'n llawer haws os ydyn nhw'n deall y cyd-destun ehangach.
- Ystyriwch osod her neu broblem i'r myfyrwyr ei datrys, er enghraifft: 'Os ydyn ni eisiau i hyn ddigwydd, beth ydych chi'n meddwl sydd angen i ni ei wneud?'
- Ystyriwch weithgareddau sy'n dangos sut mae gwahanol rolau ac adrannau'n cydweithio, fel y gall y bobl ifanc ddeall ei bod yn cymryd ystod eang o bobl a sgiliau i gyflawni nodau'r cwmni.
- Byddwch yn barod i enwi rolau a swyddogaethau o fewn eich sefydliad a siarad am gyfleoedd gyrfa, rolau a llwybrau yn eich diwydiant.
- Cyfeiriwch y myfyrwyr at y chwilotwr gyrfaoedd ar discovercreative.careers/cy/opportunity-finder. I rai dros 16 oed efallai y byddan nhw eisiau lawrlwytho ap ERIC.
- Rydyn ni eisiau i Canfod! Gyrfaoedd Creadigol Cymru fod ar agor i bawb ac rydyn ni wedi gweithio gyda Grŵp Mynediad rhaglen Canfod Gyrfaoedd Creadigol i lunio canllawiau penodol ar greu digwyddiadau ac adnoddau ar gyfer pobl ifanc sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Mae'r canllawiau hyn i'w gweld ar y dudalen nesaf.

# Cychwyn arni

## Canllawiau ar gyfer cynhwysiant a hygyrchedd

Mewn partneriaeth â'n Grŵp Mynediad, rydyn ni wedi creu rhai canllawiau syml i sicrhau bod eich digwyddiad yn gynhwysol ac yn hygyrch.

Gall y canllawiau hyn gael eu defnyddio ar gyfer pob digwyddiad a gweithgaredd a gyflwynwch ac fe fyddan nhw o fudd i bob dysgwr, gan gynnwys rhai sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Mae disgyblion sydd ag ADY yn cyfrif am 17%[1] o holl ddisgyblion ysgol yn y Deyrnas Unedig, sy'n golygu, ar gyfartaledd, y bydd dosbarth o 30 yn cynnwys 5 disgybl sydd ag ADY. Heb addasu eich gweithgareddau i ddiwallu eu hanghenion, mae perygl y bydd y disgyblion hyn yn cael eu heithrio o'r profiad.

**Cyn i chi gyfarfod â grŵp**

- Os bydd pobl ifanc yn ymweld â'ch gweithle, gall anfon lluniau o'ch adeilad cyn iddyn nhw gyrraedd leddfu rhywfaint o bryder ynghylch yr hyn nad ydyn nhw'n gwybod / mynd i le newydd. Os yn bosibl, gallai'r lluniau hyn gael eu fformatio fel stori weledol. Mae enghreifftiau o straeon gweledol i'w gweld isod:
  - www.rafmuseum.org.uk/documents/ALD-London/Visual_Story_Schools.pdf
  - www.sciencemuseum.org.uk/sites/default/files/2017-10/visual-story-january-2017-small.pdf
  - museumsandgalleries.leeds.gov.uk/wp-content/uploads/2023/01/Lotherton-Visual-Story.pdf
- Os yn bosibl, anfonwch lun neu fideo o gyflwyniad ohonoch chi'ch hun i'r ysgol fel eich bod chi'n gyfarwydd i'r disgyblion pan fyddan nhw'n ymweld. Gallai fod yn ddefnyddiol i bob aelod o staff a fydd yn cwrdd â'r grŵp yn ystod eu hymweliad greu cyflwyniad o'u hunain fel hyn.
- Pan fydd grŵp yn trefnu gweithgaredd gyda chi, gwnewch yn siŵr eich bod yn gofyn a oes unrhyw anghenion ychwanegol y mae angen i chi wybod amdanyn nhw. Gallai hyn gynnwys anghenion corfforol, anghenion dysgu a/neu anghenion cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl. Gofynnwch a oes unrhyw addasiadau y gallwch chi eu gwneud i sicrhau bod y dysgu yn hygyrch ac yn bleserus i bawb.
- Meddyliwch am unrhyw wersi / gweithgareddau y gellid eu gwneud yn yr ysgol cyn yr ymweliad y gallwch eu hanfon i'r athrawon ymlaen llaw. Gall yr ymarferion cynhesu hyn helpu'r disgyblion i deimlo'n fwy cyfforddus a hyderus pan fyddan nhw'n cwrdd â chi.

**Awgrymiadau pellach**

- Pecyn cymorth Into Film ar gyfer digwyddiadau: www.intofilm.org/intofilm-production/5096/into-film-send-school-screenings-exhibitor-toolkit-09.01.23.pdf
- Canllawiau a chyngor pellach: www.exceptional-minds.com
- Os hoffech drafod ymhellach, cysylltwch â'r tîm

1 *Tŷ'r Cyffredin 2023*

# Cychwyn arni

## Canllawiau ar gyfer cynhwysiant a hygyrchedd

**Yn ystod y digwyddiad**

- Lluniwch amserlen weledol o'r dydd y gallwch gyfeirio ati drwy gydol eich gweithdy. Lle gallwch chi, byddwch mor hyblyg â phosibl. Byddwch yn ymwybodol o hyd pob gweithgaredd rydych chi'n bwriadu ei gynnal ond byddwch yn ymwybodol o'r posibilrwydd y bydd angen dod â gweithgaredd i ben yn gynnar os nad yw'r myfyrwyr yn ymgysylltu'n dda. Yn yr un modd, bydd bod yn hyblyg yn caniatáu ichi ymestyn gweithgaredd os yw'n ennyn diddordeb a brwdfrydedd.
- Meddyliwch am y gwahanol ffyrdd y mae pobl yn dysgu. Ceisiwch osgoi defnyddio un dull yn unig o addysgu a rhannu gwybodaeth. Osgowch siarad a/neu ddarllen yn unig a defnyddiwch ddulliau dysgu "ymarferol" lle bo modd.
- Byddwch yn ymwybodol y gall pobl niwroamrywiol a/neu bobl ag anableddau dysgu fod yn prosesu mewn ffyrdd gwahanol. Gall gymryd hyd at 7 eiliad i berson niwroamrywiol brosesu cwestiwn cyn ateb, felly rhowch amser i ddisgyblion ymateb. Byddwch yn ymwybodol hefyd y gallai dewis rhywun i ateb cwestiwn achosi pryder i'r disgybl yma a allai eu hatal rhag ateb. Ceisiwch beidio â rhoi disgyblion dan bwysau yn y fan a'r lle.
- Wrth ddefnyddio testun mewn gweithgareddau, gwnewch yn siŵr bod y ffont yn 16 pwynt o leiaf ac yn sans serif (heb ffliciau). Mae enghreifftiau o ffontiau sans serif yn cynnwys Arial, Calibri a Verdana.
- I bobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol, gwnewch yn siŵr bod gennych chi le tawel yn eich adeilad lle gall pobl fynd am ychydig os oes angen. Dylai'r lle hwn fod yn dawel a heb Llawer o ysgogiad (arogleuon, synau a golygfeydd).
- Byddwch yn ymwybodol a derbyniol o wahaniaethau yn iaith y corff. Er enghraifft, efallai na fydd dysgwr awtistig yn gwneud cyswllt llygad wrth siarad, neu efallai y bydd yn ymddangos nad ydyn nhw'n gwrando pan fyddan nhw wir yn gwrando. Fe allen nhw hefyd fod yn gwneud symudiadau ailadroddus i helpu i gymedroli sut maen nhw'n teimlo.
- Meddyliwch am yr amser sy'n cael ei neilltuo i bob gweithgaredd a gwnewch yn siŵr eich bod yn cynnwys egwyl yn ôl yr angen.
- Gall gweithdy mewn lleoliad anghyfarwydd beri i rai dysgwyr niwroamrywiol ei chael hi'n anodd prosesu (a chofio) y diwrnod, felly fe allech chi baratoi deunydd i'r disgyblion fynd adre gyda nhw. Bydd hyn yn eu helpu i brosesu eu profiad yn eu hamser eu hunain.



# Syniadau am weithgareddau

## Cynhesu

Mae yna sawl gweithgaredd cynhesu y gallech chi eu cynnal fel rhan o sesiwn groeso a fyddai'n cyflwyno'r myfyrwyr i'ch sefydliad a'r tîm ac yn helpu pawb i weithio gyda'i gilydd. Dyma rai awgrymiadau:

- **Rhwydweithio cyflym** Mae hwn yn weithgaredd gwych os oes gennych dîm mwy. Gall weithio naill ai mewn dwy linell neu ar ffurf cylch mewnol ac allanol. Mae un llinell/cylch yn aros lle maen nhw a bydd y llall yn symud un person ar y tro. Bydd gan y myfyrwyr 1 funud i ofyn cwestiynau i'r gweithwyr er mwyn dysgu beth yw eu gwaith a sut y daethon nhw i mewn i'r diwydiant. Rydyn ni'n argymell gosod y cwestiynau hyn a'u hysgrifennu ar fwrdd/sgrin. Fe fyddwch chi'n defnyddio chwiban/cloch bob munud fel arwydd ei bod yn bryd symud.
- **Fflach-gyflwyniadau** Rhowch amserydd 1 munud a chwiban/cloch i un o'r myfyrwyr. Nhw fydd wedyn yn gyfrifol am amseru eich tîm wrth iddyn nhw gyflwyno eu hunain a'u rolau i'r grŵp.
- **Hawl i holi** Paratowch gardiau cwestiynau wedi'u rhifo a'u rhoi i'r myfyrwyr, yna bydd y myfyrwyr yn darllen y cwestiynau yn eu trefn ac fe allan nhw ddewis pwy o'ch tîm sy'n gorfod ateb pa gwestiwn. Fe allech chi hefyd gael cymysgedd o gwestiynau difrifol am eu swyddi/gyrfaoedd a chwestiynau llai ffurfiol.
- **Paru'r dasg** Cyflwynwch ambell aelod o'r tîm / rôl wahanol, teitl eu swydd a disgrifiad syml un linell o'r hyn maen nhw'n ei wneud a pharatowch daflenni yn disgrifio tasgau a gweithgareddau dyddiol sy'n rhan o'u gwaith. Mewn grwpiau, bydd y myfyrwyr yn trafod ac yn dweud pa berson maen nhw'n meddwl sy'n cyflawni pa set o dasgau. Yna bydd yr atebion cywir yn cael eu datgelu. Gallai hyn hefyd gael ei wneud gyda phapurau post-it neu siartiau troi.
- **Dyfalu fy rôl** Gofynnwch i bob aelod o'r tîm ddod â phrop sy'n cynrychioli eu swydd neu eitem maen nhw'n ei defnyddio'n aml yn eu gwaith. Yna gall y myfyrwyr ddyfalu beth yw'r rolau cyn darganfod yr ateb cywir.

Delwedd © UK Music. Yr artist Shao Dow yn cynnal gweithdy cerddoriaeth i fyfyrwyr yn nwyrain canolbarth Lloegr. Ffotograffydd: Courtney Wallace.

## Syniadau am weithgareddau a gweithdai

Os ydych chi'n bwriadu rhannu'r grwpiau o amgylch yr adeilad, bydd angen i chi sicrhau bod gan yr ysgol/coleg ddigon o aelodau staff i fod gyda phob grŵp.

- **Gweithdai rhyngweithiol** Mae hyn yn wych os oes gennych chi dasg ymarferol a fydd yn rhoi profiad ymarferol i'r myfyrwyr. Mae'r gweithdai hyn yn well os oes gennych chi ddigon o adnoddau i roi cyfle i bob myfyriwr gymryd rhan.
- **Rhaglen teithiau treigl** Os oes gennych chi adeilad mawr gyda sawl adran, fe allech chi gynnal taith dreigl sy'n rhannu'r prif grŵp, fel eu bod nhw'n cylchdroi drwy'r timau. Yna gallai pob lleoliad ar y daith fod â chyfnod penodol o amser i:
  - Esbonio swyddogaeth yr adran a sut mae'n berthnasol i'r busnes cyffredinol a'r gwahanol rolau sydd yn rhan o'r adran.
  - Esbonio neu ddangos y sgiliau sydd eu hangen o fewn yr adran.
  - Dangos y math o waith sy'n digwydd: gallai hyn fod yn rhyngweithiol, gan ganiatáu i rai myfyrwyr, neu bawb, roi cynnig arni.
  - Trafod y gwahanol lwybrau i weithio yn y maes penodol hwn neu eu cyfeirio at ffynonellau gwybodaeth pellach, fel gwefan Canfod! Gyrfaoedd Creadigol.
  - Neilltuo amser ar gyfer cwestiynau ar ddiwedd pob adran.
- **Gosod her** Gall gosod her yn sail i'r digwyddiad helpu i ddangos y gwahanol brosesau sy'n gysylltiedig â'ch diwydiant a sut mae pob adran yn ymwneud â'i gilydd ac yn cefnogi ei gilydd. Mae yna ddwy ffordd wahanol i wneud hyn:
  - Opsiwn un: Rhannwch y grŵp yn wahanol 'adrannau' a neilltuwch aelod o staff i bob grŵp. Mae'r adrannau'n gweithio ar yr her, gan ddod at ei gilydd mewn cyfarfodydd pan fo angen er mwyn cyflawni'r canlyniad. Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n glir ynglŷn ag amseru a neilltuwch amser ar y diwedd ar gyfer adborth/trafodaeth.
  - Opsiwn dau: Rhannwch y grŵp yn dimau sydd wedyn yn cylchdroi trwy'r gwahanol adrannau yn ystod y dydd i brofi'r gwahanol brosesau dan sylw wrth iddyn nhw weithio ar eu her. Yna bydd pob tîm yn cyflwyno eu canlyniad ar ddiwedd y dydd.
- **Rhaglen o sgyrsiau gyda sesiynau holi ac ateb** Os nad oes gennych chi lawer o le, gallai rhaglen o sgyrsiau sy'n cynnwys gwahanol aelodau o'ch tîm fod yn opsiwn gwych a bydd yn rhoi cipolwg gwerthfawr iawn i'r myfyrwyr na fydden nhw fel arall yn cael cyfle i ddod i gyswllt â gweithwyr proffesiynol. Rydyn ni'n argymell cadw'r sgyrsiau'n fyr ac yn berthnasol a defnyddio cymhorthion gweledol fel ffilmiau, delweddau, ac offer a phropiau perthnasol. Efallai yr hoffech chi hefyd gynnwys rhai elfennau rhyngweithiol mewn rhaglen o sgyrsiau, er enghraifft, gofyn i'r myfyrwyr ddweud wrthych chi pa sgiliau maen nhw'n meddwl sydd eu hangen ar gyfer y gwahanol rolau, gan eu gwahodd i esbonio sut maen nhw'n meddwl mae cynhyrchion penodol yn cael eu creu. Gwnewch yn siŵr eich bod yn caniatáu amser ar gyfer sesiwn holi ac ateb ar ddiwedd pob sgwrs.
- **Adborth ar y digwyddiad** Efallai y byddwch yn dewis casglu ychydig o adborth gan y myfyrwyr am eu profiad. Gallai hyn gael ei wneud yn anffurfiol; er enghraifft, fe allech chi ofyn i'r myfyrwyr rannu rhywbeth maen nhw wedi'i ddysgu neu ei fwynhau o'r diwrnod, neu fe allech chi gasglu sylwadau ar bapurau post-it. Mae dyfyniadau gan gyfranogwyr yn wych i'w rhannu ar y cyfryngau cymdeithasol (defnyddiwch enwau cyntaf yn unig) ac mewn adroddiadau effaith.

# Canllawiau i brifysgolion a gweithwyr llawrydd

**Prifysgolion**

Mae croeso i ddarparwyr AB ac AU gofrestru fel partneriaid diwydiant. Mewn blynyddoedd blaenorol, maen nhw wedi agor eu drysau i arddangos cyfleusterau ac i roi mynediad at weithwyr proffesiynol yn y diwydiannau creadigol. Efallai yr hoffech chi gynnig taith o amgylch y safle neu'r adran, neu drefnu cyfle i gyfarfod â staff a dysgu am eu rolau a'u llwybrau gyrfa. Yn 2023, bu Coleg Gorllewin Suffolk yn gweithio gydag UK Music i roi sylw i yrfaoedd yn y diwydiant cerddoriaeth. Os oes gennych chi ddiddordeb mewn partneru â busnesau creadigol lleol eraill i gyflwyno gweithgaredd, cysylltwch â ni – discovercymru@intofilm.org.

**Gweithwyr llawrydd**

Os ydych chi wedi cofrestru fel unigolyn, mae sawl ffordd i gymryd rhan. Efallai yr hoffech chi gysylltu â'ch ysgol leol i gynnig gweithdy ymarferol iddyn nhw, neu roi sgwrs am eich gwaith a'ch llwybr gyrfa hyd yn hyn. Fel arall, fe allech chi gyflwyno sgwrs rithwir ar blatfform ar-lein a'i chyflwyno i'n Chwilotydd Canfod Cyfle. Cymerwch olwg ar ein cynllun gwers cyflwyniad i waith llawrydd am syniadau ar sut i siarad â phobl ifanc am fywyd fel gweithiwr llawrydd.

Os ydych chi'n gweithio mewn gweithle neu stiwdio ac yn gallu derbyn pobl ifanc i'r lle, cymerwch olwg ar y canllawiau diogelu ac iechyd a diogelwch ar dudalen 11 o'r pecyn cymorth hwn.

Noder nad oes gennym gyllid ar gael i dalu ffioedd na chostau cludiant, a allai gael effaith ar yr hyn y gallwch chi ei gynnig.




# Creu digwyddiad diogel

## Diogelu

Bydd y canllawiau hyn yn eich helpu i gynllunio digwyddiad diogel a chroesawgar. Er mai'r athrawon a'r hebryngwyr sy'n gyfrifol am ddiogelwch a lles eu myfyrwyr, mae diogelu yn gyfrifoldeb i bawb. Gwnewch yn siŵr bod gennych chi bolisi diogelu ar waith – gallai ysgolion ofyn i chi rannu'r polisi hwn gyda nhw.

Os ydych chi'n cynnwys cyflogwyr eraill fel rhan o'ch digwyddiad Canfod!, rhaid i chi sicrhau eich bod wedi rhannu eich polisi diogelu gyda phawb sy'n rhan o'r digwyddiad a'u bod nhw'n cytuno i gydymffurfio ag ef.

Os bydd achos yn digwydd yn ystod yr ymweliad, dylech hysbysu'r aelod o staff sy'n hebrwng y bobl ifanc cyn gynted â phosibl.

Yn yr achos prin y bydd datgeliad yn cael ei wneud i chi neu aelod o'ch tîm, cyflwynwch adroddiad ysgrifenedig cyn gynted â phosibl i'ch Arweinydd Diogelu Dynodedig, yr awdurdod lleol neu'r heddlu os yw'r sefyllfa'n un frys. Mae adnoddau a chyngor defnyddiol ar ymdrin â datgeliad o gam-drin neu esgeulustod ar gael ar wefan yr NSPCC.

**Canllawiau ar ffotograffiaeth a ffilmio**

Os ydych chi'n bwriadu tynnu lluniau/ffilmiau o unrhyw ran o'r diwrnod at ddiben hyrwyddo a dogfennu, trafodwch hyn gyda'r ysgol/coleg rydych chi'n gweithio gyda nhw ymlaen llaw gan y bydd angen iddyn nhw sicrhau bod ganddyn nhw gydsyniad y rhieni/gwarcheidwaid a'r hebryngwyr os ydych chi'n bwriadu eu cynnwys nhw. Mae templedi ffurflenni caniatâd i'w gweld isod.

Os fyddan nhw at ddefnydd cyhoeddus, efallai y bydd rhai myfyrwyr yn dewis peidio â chael eu cynnwys - rydyn ni'n argymell eich bod yn gofyn i'r myfyrwyr hyn wisgo sticer fel ei bod yn hawdd i'r ffotograffydd / fideograffydd / golygydd eu hadnabod. Fe allech chi ddewis gosod arwydd i ddangos lle bydd ffilmio neu ffotograffiaeth yn digwydd.

Gallwch lawrlwytho templedi ffurflenni cydsyniad y cyfryngau drwy'r dolenni isod. Mae'r rhain yn rhoi opsiwn i chi gynnwys caniatâd i rannu cynnwys â rhaglen Canfod a'n harianwyr.

- **Lawrlwythwch ffurflen gydsyniad y cyfryngau i rai dan 18 oed fel rhan o Canfod! Gyrfaoedd Creadigol Cymru**
- **Lawrlwythwch ffurflen gydsyniad y cyfryngau i rai dros 18 oed fel rhan o Canfod! Gyrfaoedd Creadigol Cymru**

Delwedd: Myfyriwr yn Nhŷ Arwerthiant Christie's fel rhan o Black to the Future Takeover yn 2024

# Creu digwyddiad diogel

## Pethau i'w gwneud

- Gofynnwch i'r myfyrwyr anfon unrhyw ymholiadau drwy e-bost i gyfeiriad e-bost gwaith generig a chysylltu â chi drwy athro neu riant/gofalwr
- Atebwch e-byst gan fyfyrwyr, gan sicrhau eich bod bob amser yn copïo eu hathro neu riant/gofalwr
- Gwnewch yn siŵr bod gan y bobl ifanc ddigon o gyfleoedd i orffwys, myfyrio a chael mynediad at luniaeth a thoiledau
- Rhowch wybod am unrhyw beth sy'n eich poeni neu'n eich pryderu. Mae diogelu yn gyfrifoldeb i bawb
- Cymerwch ofal arbennig i ddiogelu delweddau a gwybodaeth bersonol sy'n gysylltiedig â myfyrwyr
- Dilëwch ddelweddau digidol o fyfyrwyr. Os oes gennych chi gydsyniad i'w cadw a'u rhannu, storiwch nhw'n ddiogel ar weinydd mewnol a'u dileu o'ch dyfeisiau personol
- Ystyriwch yn ofalus pa wybodaeth rydych chi'n ei rhannu ar-lein. Os oes gennych gydsyniad i rannu delweddau / clipiau fideo, peidiwch â defnyddio enwau llawn y plant neu enwch yr ysgol a'r ardal leol yn lle hynny. Gallech chi hyd yn oed ofyn i'r athro rannu'r lluniau ar draws eu sianeli cymdeithasol nhw a'ch tagio chi neu eich sefydliad, a gallwch chi rannu o'r fan honno
- Cyfeiriwch gwestiwn at yr athro neu'r hwylusydd os ydych chi'n ansicr sut i'w ateb.
- Dangoswch ddeunydd sy'n briodol i'r oedran i gyd-fynd â'ch sgwrs (gall unrhyw glipiau a fydd yn cael eu dangos gael eu rhannu â'r athro neu dîm Canfod Gyrfaoedd Creadigol Cymru cyn y digwyddiad i sicrhau bod y polisi Diogelu Plant yn cael ei ddilyn).

## Pethau i beidio â'u gwneud

- Peidiwch â'ch cael eich hun ar eich pen eich hun gyda pherson ifanc, hyd yn oed os oes gennych chi gliriad DBS
- Peidiwch â thynnu lluniau na ffilmiau o fyfyrwyr oni bai eich bod wedi derbyn ffurflenni cydsyniad wedi'u llofnodi oddi wrth yr athro neu'r rhieni/gofalwyr
- Peidiwch â rhannu gwybodaeth bersonol â myfyrwyr, na chysylltu â nhw drwy'r cyfryngau cymdeithasol
- Peidiwch â gwneud addewidion na allwch eu cadw, e.e.: cytuno i drefnu ymweliadau pellach neu roi'r ysgol mewn cyswllt â rhywun enwog
- Peidiwch â datgelu gwybodaeth am fyfyrwyr unigol na'ch bywyd personol
- Peidiwch â chychwyn cyswllt corfforol. Fodd bynnag, os daw plentyn atoch mewn trallod, cofiwch ymddwyn yn gyfrifol ac yng ngolwg eraill
- Peidiwch â defnyddio iaith amhriodol

# Creu digwyddiad diogel

## Iechyd a diogelwch

Dylai iechyd a diogelwch fod yn flaenoriaeth wrth gynllunio eich digwyddiad. Bydd angen i chi asesu'r risgiau a ddaw yn sgil ymweliad â'ch gweithle, yn ogystal â'r risgiau ynghylch unrhyw weithgareddau a gynlluniwyd. Bydd angen i chi ddarparu asesiad risg i'r athrawon sy'n dod â grwpiau i'r digwyddiad. Mae'r athrawon yn gyfrifol am baratoi eu hasesiadau risg eu hunain, ond fe fyddan nhw'n defnyddio eich enghraifft chi i ddeall y risgiau y gallen nhw eu hwynebu yn eich gweithle.

Gallwch lawrlwytho templed asesiad risg fan yma. Mae pethau pwysig i'w hystyried yn cynnwys:

- Diogelwch adeilad – grisiau, tir anwastad, llawr coblog, gosodiadau a ffitiadau sy'n rhwystro llwybrau
- Unrhyw beiriannau ac offer sydd ar waith yn ystod yr ymweliad
- Cerbydau'n symud o amgylch y safle
- Risgiau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau penodol sydd wedi'u cynllunio e.e. cario a chodi, defnyddio siswrn neu offer miniog, ymweld â theras ar y to ac ati

Bydd angen i chi hefyd ystyried eich trefniadau diogelwch tân a chymorth cyntaf. Rydym yn argymell bod swyddog cymorth cyntaf yn bresennol ar ddiwrnod eich digwyddiad. Os nad oes gennych unrhyw staff sydd wedi'u hyfforddi mewn cymorth cyntaf, gall St John Ambulance ddarparu swyddogion cymorth cyntaf ar gyfer digwyddiadau.

Mae'n werth neilltuo peth amser ar ddechrau eich digwyddiad i sôn am yr allanfeydd tân agosaf, y mannau tawel a'r toiledau, rhannu unrhyw reolau neu ganllawiau diogelwch sy'n ymwneud â'u hymweliad neu weithgareddau, a rhoi trosolwg o'r gweithdrefnau petai yna argyfwng.

Bydd yr ysgolion/colegau yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn dod â digon o oedolion i gefnogi'r myfyrwyr yn ystod eu hymweliad. Dylen nhw bob amser ddilyn y canllawiau y byddwch chi'n eu darparu a sicrhau bod y bobl ifanc yn cadw at reolau iechyd a diogelwch.



# Rhestr wirio

- Os nad ydych chi eisoes wedi gwneud hynny, cofrestrwch eich diddordeb fan yma.
- Oes gennych chi gwestiwn? Dewch draw i un o'n sesiynau gwybodaeth a holi ac ateb.
- Gosodwch ddyddiad/ystod dyddiadau ar gyfer eich gweithgaredd a'i lwytho i'r Chwilotydd Canfod Cyfle.
- Os ydych chi eisiau cysylltu'n uniongyrchol ag ysgolion lleol, mae awgrymiadau ar sut i gysylltu â nhw ar dudalen 4.
- Defnyddiwch ein 'syniadau am weithgareddau' ar dudalennau 8–9 i'ch helpu i gynllunio.
- Gwnewch yn siŵr eich bod wedi cwblhau Asesiad Risg.
- Lawrlwythwch a golygwch ein templedi ffurflenni cydsyniad y cyfryngau fel y gallwch chi dynnu lluniau a chlipiau fideo yn ystod eich digwyddiad.
- Rhowch friff i bobl allweddol yn eich sefydliad, gan gynnwys uwch reolwyr, timau blaen tŷ/safle, timau cysylltiadau cyhoeddus / cyfathrebu a marchnata.
- Rhannwch ein pecyn ymgyrch ar dudalen 16 â'ch timau cyfathrebu.
- Paratowch le i'r myfyrwyr gadw eu heiddo a lle diogel iddyn nhw fwyta eu cinio os ydyn nhw yn eich adeilad drwy'r dydd.
- Ystyriwch sut y bydd y myfyrwyr yn cael eu symud o amgylch eich adeilad ac i wahanol weithdai a gwnewch yn siŵr eich bod yn cynnwys hyn yn eich amserlen.
- Os oes gan fyfyrwyr y dewis rhwng gwahanol weithdai/gweithgareddau, gwnewch yn siŵr eich bod yn ystyried sut y byddan nhw'n dewis – fyddan nhw'n dewis ar y diwrnod neu ymlaen llaw?
- Os ydych chi'n rhannu grwpiau o fyfyrwyr ar draws eich adeilad, rhowch wybod i'r ysgol/coleg am hyn fel y gallan nhw ddod â digon o staff at ddibenion diogelu.



# Cwestiynau cyffredin

**Oes cyllid ar gael i ni gymryd rhan?**

Ni allwn gynnig cyllid i sefydliadau'r diwydiant gymryd rhan yn Canfod! Gyrfaoedd Creadigol Cymru. Mae'r rhaglen yn fenter dan arweiniad y diwydiant sy'n annog cyflogwyr o bob rhan o'r diwydiannau creadigol i ymestyn allan a dod i gyswllt â'u ffrwd o ddarpar dalent i'w hannog i ystyried gyrfaoedd creadigol. Oherwydd hyn, credwn ei bod yn werth chweil i'r diwydiant fuddsoddi amser ac adnoddau yn y rhaglen, yn enwedig yn ystod Wythnos Canfod! Gyrfaoedd Creadigol Cymru.

Rydyn ni'n cydnabod y gallai sefydliadau llai ac unigolion sydd am gefnogi'r rhaglen wynebu rhwystrau ariannol, ond mae yna ffyrdd hyblyg, heb fawr o ymrwymiad, i gymryd rhan, fel cyflwyno sgwrs fer yn ystod gwasanaeth, cymryd rhan yn ein rhaglen rithwir neu hyrwyddo adnoddau presennol.

**Sut ydyn ni'n dod o hyd i ysgolion/colegau i gymryd rhan?**

Llwythwch eich gweithgaredd i'n Chwilotydd Canfod Cyfle fel y gall ysgolion/colegau ddod o hyd i'ch digwyddiad. Mae hefyd gennym ni gyngor ar sut i gysylltu ag ysgolion a cholegau lleol ar dudalen 4.

Gall ysgolion geisio gwneud cais i gronfa Ewch i Weld neu gronfa Rhowch Gynnig Arni, sef cronfeydd Cyngor y Celfyddydau, i dalu rhai o'r costau sydd ynghlwm wrth y gweithgareddau hyn (rhaid gwneud cais 6 wythnos cyn y digwyddiad). Gallwch gael rhagor o wybodaeth fan yma:

- https://arts.wales/funding/creative-learning/go-and-see
- https://arts.wales/funding/creative-learning/have-a-go

**Faint o bobl ifanc ddylen ni eu croesawu?**

Mae hyn i fyny i chi. Mae digwyddiadau blaenorol Canfod! wedi amrywio o grŵp bach o 5 i ddosbarth o 30 neu hyd yn oed grŵp o flwyddyn gyfan. Os ydych chi eisiau croesawu grŵp mawr, efallai y bydd angen i chi weithio gyda nifer o ysgolion/colegau gan ei bod hi'n anodd ac yn ddrud iddyn nhw gludo grwpiau mawr o fyfyrwyr.

**Pryd ddylai'r sesiynau gael eu cynnal?**

Rydyn ni'n annog i'r gweithgareddau ddigwydd oddi mewn i oriau ysgol er mwyn caniatáu amseroedd teithio, felly tua 10am–2.30pm

**A fyddwn ni'n gyfrifol am ddiogelwch y myfyrwyr tra byddan nhw yn ein gweithle?**

Byddwch, yn unol â'ch polisïau iechyd a diogelwch ac argyfwng. Bydd angen i chi gael yswiriant atebolrwydd cyhoeddus cyfredol a darparu asesiad risg enghreifftiol i'r ysgolion sy'n ymweld. Gweler tudalen 13.

**Pa ofynion sydd eu hangen ar staff i weithio gyda phlant a phobl ifanc?**

Bydd pob myfyriwr yn cael eu hebrwng gan aelodau staff yr ysgol neu'r coleg sydd wedi cael cliriad DBS. Nhw sy'n gyfrifol am ddiogelwch a lles eu myfyrwyr ac am sicrhau'r gymhareb gywir rhwng staff a disgyblion. Am resymau diogelu, ni ddylid gadael eich staff ar eu pennau eu hunain gyda phlant.

**A ddylen ni ddarparu cludiant/lluniaeth?**

Nid oes disgwyl i chi dalu am unrhyw gostau teithio. Dylai'r ysgolion/colegau drefnu bod y staff a'r myfyrwyr yn dod â'u pecyn cinio a'u lluniaeth eu hunain, ond dylech chi wneud yn siŵr bod lle diogel iddyn nhw eistedd yn ystod egwyl a/neu amser cinio.

**Cysylltwch â ni:** discovercymru@intofilm.org



# Ymgyrch Canfod! Gyrfaoedd Creadigol Cymru 2025

Mae cyfleoedd gyrfa yn y diwydiannau creadigol yn cynyddu bob dydd ac mae cyflogaeth yn y sector yn tyfu deirgwaith yn gyflymach na gweddill economi'r DU.

Nid yw'r twf hwn yn dangos unrhyw arwyddion o arafu, ond eto nid yw llawer o bobl ifanc a'r rhai sy'n cefnogi eu dewisiadau gyrfa yn ymwybodol o'r holl rolau a'r meysydd gwaith helaeth sydd ar gael - rydyn ni am newid hynny.

Drwy ddathlu eich cyfranogiad yn Canfod! Gyrfaoedd Creadigol Cymru, fe fyddwch yn dangos yr ymrwymiad llwyr i newid wyneb y diwydiannau creadigol a galluogi ein diwydiannau blaenllaw i barhau i ffynnu.

Byddem yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth nawr i godi ymwybyddiaeth o'r rhaglen ac annog mwy o gwmnïau yn y diwydiant creadigol i gymryd rhan yn Canfod! Gyrfaoedd Creadigol, Cymru

- **Lawrlwythwch Becyn Cyfathrebu Canfod! Gyrfaoedd Creadigol Cymru**

Cofiwch ein tagio ni ar draws eich postiadau:

- **LinkedIn:** Discover! Creative Careers
- **#DiscoverCreativeCareersCymru**
- **#CanfodGyrfaoeddCreadigolCymru**

CANFOD!
gyrfaoedd creadigol

DISCOVER!
creative careers

**Mwy o wybodaeth**
discovercreative.careers/cy/i-gyflogwyr/canfod-gyrafoedd-creadigol-gyrfaoedd-creadigol

**Cysylltwch â ni**
discovercymru@intofilm.org

**Ymunwch â ni ar LinkedIn**
Discover! Creative Careers

Funded by
UK Government

Wedi ei ariannu gan
Llywodraeth y DU

Mae Canfod! Gyrfaoedd Creadigol Cymru 2025–26 wedi'i hariannu gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS). Mae'n cael ei chyflwyno gan ScreenSkills, mewn partneriaeth â sefydliadau ledled y DU sy'n cynrychioli'r diwydiannau creadigol.